"Regulation 2074/2005" (*"Rheoliad 2074/2005"*) means Commission Regulation (EC) No. 2074//2005 laying down implementing measures for certain products under Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council and for the organisation of official controls under Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council and Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council, derogating from Regulation (EC) No. 852/2004 of the European Parliament and of the Council and amending Regulations (EC) No. 853/2004 and (EC) No. 854/2004(**6**);

(**1**) OJ Rhif L155, 30.4.2004, t.206. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif854/2004 wedi'i osod bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.83).

(**2**) OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif882/2004 wedi'i osod bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L226, 28.5.2004, t.1).

(**3**) OJ Rhif L157, 30.4.2004, t.33. Mae testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC wedi'i osod bellach mewn Corigendwm (OJ RhifL195, 2.6.2004, t.12).

(**4**) OJ Rhif L271, 15.10.2005, t.17.

(**5**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.1.

(**6**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.27.

(**1**) OJ No. L155, 30.4.2004, p.206. The revised text of Regulation (EC) No. 854/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.83).

(**2**) OJ No. L165, 30.4.2004, p.1. The revised text of Regulation (EC) No. 882/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L191, 28.5.2004, p.1).

(**3**) OJ No. L157, 30.4.2004, p.33. The revised text of Directive 2004/41/EC is now set out in a Corrigendum (OJ No. L195, 2.6.2004, p.12).

(**4**) OJ No. L271, 15.10.2005, p.17.

(**5**) OJ No. L338, 22.12.2005, p.1.

(**6**) OJ No. L338, 22.12.2005, p.27.

ystyr "Rheoliad 2075/2005" (*"Regulation 2075/2005"*) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2075/2005 sy'n gosod rheoloau penodedig ar reolaethau swyddogol ar gyfer Trichinella mewn cig(**1**); ac

ystyr "Rheoliad 2076/2005" (*"Regulation 2076/2005"*) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2076/2005 sy'n gosod trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004, (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**2**).

"Regulation 2075/2005" (*"Rheoliad 2075/2005"*) means Commission Regulation (EC) No. 2075/2005 laying down specific rules on official controls for *Trichinella* in meat(**1**); and

"Regulation 2076/2005" (*"Rheoliad 2076/2005"*) means Commission Regulation (EC) No. 2076/2005 laying down transitional arrangements for the implementation of Regulations (EC) No. 853/2004, (EC) No. 854/2004 and (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council and amending Regulations (EC) No. 853/2004 and (EC) No. 854/2004(**2**).

(**1**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.60.

(**2**) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.83.

(**1**) OJ No. L338, 22.12.2005, p.60.

(**2**) OJ No. L338, 22.12.2005, p.83.

ATODLEN 2

Rheoliadau 2(1) a 17

DARPARIAETHAU CYMUNEDOL PENODEDIG

1. Y Ddarpariaeth yn Rheoliadau'r ymuned	*2. Y Pwnc*
Erthygl 3 o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn sicrhau bod pob cam yn y broses o gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd sydd o dan eu rheolaeth yn bodloni'r gofynion perthnasol o ran hylendid sydd wedi'u nodi yn Rheoliad 852/2004.
Erthygl 4(1) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd sy'n gwneud gwaith cynhyrchu sylfaenol a gweithrediadau cysylltiedig penodol yn cydymffurfio â'r darpariaethau hylendid cyffredinol a bennir yn Rhan A o Atodiad I i Reoliad 852/2004 ac unrhyw ofynion penodol y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad 853/2004.
Erthygl 4(2) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd sy'n cyflawni unrhyw gam yn y broses o gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd ar ôl y camau hynny y mae Erthygl 4(1) yn gymwys iddynt yn cydymffurfio â'r gofynion cyffredinol o ran hylendid a nodir yn Atodiad II i Reoliad 852/2004 ac unrhyw ofynion penodol y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad 853/2004.
Erthygl 4(3) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd, fel y bo'n briodol, yn mabwysiadu rhai mesurau hylendid penodol.

SCHEDULE 2

Regulations 2(1) and 17

SPECIFIED COMMUNITY PROVISIONS

1. Provision of Community Regulations	*2. Subject matter*
Article 3 of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators ensure that all stages of production, processing and distribution of food under their control satisfy the relevant hygiene requirements laid down in Regulation 852/2004.
Article 4(1) of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators carrying out primary production and specified associated operations comply with the general hygiene provisions laid down in Part A of Annex I to Regulation 852/2004 and any specific requirements provided for in Regulation 853/2004.
Article 4(2) of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators carrying out any stage of production, processing and distribution of food after those stages to which Article 4(1) applies comply with the general hygiene requirements laid down in Annex II to Regulation 852/2004 and any specific requirements provided for in Regulation 853/2004.
Article 4(3) of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators, as appropriate, adopt certain specific hygiene measures.

1. Y Ddarpariaeth yn Rheoliadau'r Gymuned	*2. Y Pwnc*	*1. Provision of Community Regulations*	*2. Subject Matter*
Erthygl 5(1) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn sefydlu, gweithredu a chynnal gweithdrefn neu weithdrefnau parhaol ar sail egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP).	Article 5(1) of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators put in place, implement and maintain a permanent procedure or procedures based on the HACCP principles.
Erthygl 5(2) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd, pan fo unrhyw addasiad yn cael ei wneud i'r cynnyrch, y broses, neu i unrhyw gam yn y broses, yn adolygu'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 5(1) ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol iddi.	Article 5(2) of Regulation 852/2004	Requirement that when any modification is made in the product, process, or any step, food business operators review the procedure referred to in Article 5(1) and make the necessary changes to it.
Erthygl 5(4)(a) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn darparu i'r awdurdod cymwys dystiolaeth eu bod yn cydymffurfio ag Erthygl 5(1).	Article 5(4)(a) of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators provide the competent authority with evidence of their compliance with Article 5(1).
Erthygl 5(4)(b) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn sicrhau bod unrhyw ddogfennau sy'n disgrifio'r gweithdrefnau a ddatblygwyd yn unol ag Erthygl 5 yn gyfoes.	Article 5(4)(b) of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators ensure that any documents describing the procedures developed in accordance with Article 5 are up to date.
Erthygl 5(4)(c) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn dal eu gafael ar ddogfennau a chofnodion am gyfnod priodol.	Article 5(4)(c) of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators retain documents and records for an appropriate period.
Erthygl 6(1) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn cydweithredu â'r awdurdodau cymwys yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth arall y Gymuned neu unrhyw gyfraith genedlaethol arall sy'n gymwys.	Article 6(1) of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators co-operate with the competent authorities in accordance with other applicable Community legislation or national law.
Erthygl 6(2), paragraff cyntaf Rheoliad	Gofyniad bod gweithredydd busnes bwyd yn hysbysu'r 852/2004 awdurdod cymwys o bob sefydliad o dan ei reolaeth sy'n cyflawni unrhyw un o'r camau yn y broses o gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd.	Article 6(2), first paragraph of Regulation 852/2004	Requirement that a food business operator notify the competent authority of each establishment under its control that carries out any of the stages of production, processing and distribution of food.

1. Y Ddarpariaeth yn Rheoliadau'r Gymuned	*2. Y Pwnc*	*1. Provision of Community Regulations*	*2. Subject Matter*
Erthygl 6(2), ail baragraff Rheoliad	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn sicrhau 852/2004 bod gan yr awdurdod cymwys wybodaeth gyfoes am sefydliadau.	Article 6(2), second paragraph of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators ensure that the competent authority has up to date information on establishments.
Erthygl 6(3) o Reoliad 852/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn sicrhau bod sefydliadau yn cael eu cymeradwyo gan yr awdurdod cymwys pan fo angen cymeradwyaeth.	Article 6(3) of Regulation 852/2004	Requirement that food business operators ensure that establishments are approved by the competent authority when approval is required.
Erthygl 3(1) o Reoliad 853/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol Atodiadau II a III i Reoliad 853/2004.	Article 3(1) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators comply with the relevant provisions of Annexes II and III to Regulation 853/2004.
Erthygl 3(2) o Reoliad 853/2004	Gofyniad nad yw gweithredwyr busnes bwyd yn defnyddio unrhyw sylwedd heblaw dŵr yfadwy neu, pan fo Rheoliad 852/2004 neu Reoliad 853/2004 yn caniatáu ei ddefnyddio, dŵr glân i dynnu halogiad ar y wyneb oddi ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid, oni bai bod defnyddio'r sylwedd wedi'i gymeradwyo.	Article 3(2) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators do not use any substance other than potable water or, when Regulation 852/2004 or Regulation 853/2004 permits its use, clean water, to remove surface contamination from products of animal origin unless use of the substance has been approved.
Erthygl 4(1) o Reoliad 853/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd ddim ond yn rhoi ar y farchnad gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac sydd wedi'u gweithgynhyrchu yn y Gymuned os ydynt wedi'u paratoi a'u trafod yn y sefydliadau canlynol yn unig- (a) sefydliadau sy'n bodloni gofynion perthnasol Rheoliad 852/2004, rhai perthnasol Atodiadau II a III i Reoliad 853/2004 a gofynion perthnasol eraill cyfraith bwyd; a (b) y mae'r awdurdod cymwys wedi'u cofrestru neu, pan fo'n ofynnol yn unol ag Erthygl 4(2), wedi'u cymeradwyo.	Article 4(1) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators place products of animal origin manufactured in the Community on the market only if they have been prepared and handled exclusively in establishments- (a) that meet the relevant requirements of Regulation 852/2004, those of Annexes II and III of Regulation 853/2004 and other relevant requirements of food law; and (b) that the competent authority has registered or, where required in accordance with Article 4(2), approved.

1. Y Ddarpariaeth yn Rheoliadau'r Gymuned	*2. Y Pwnc*	*1. Provision of Community Regulations*	*2. Subject Matter*
Erthygl 4(2) o Reoliad 853/2004	Gofyniad nad yw sefydliadau sy'n trafod y cynhyrchion hynny sy'n tarddu o anifeiliaid, ac y mae Atodiad III i Reoliad 853/2004 yn gosod gofynion ar eu cyfer, yn gweithredu onid yw'r awdurdod cymwys wedi'u cymeradwyo yn unol ag Erthygl 4(3).	Article 4(2) of Regulation 853/2004	Requirement that establishments handling those products of animal origin for which Annex III to Regulation 853/2004 lays down requirements do not operate unless the competent authority has approved them in accordance with Article 4(3).
Erthygl 4(3) o Reoliad 853/2004	Gofyniad na ddylai sefydliadau sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth yn unol ag Erthygl 4(2) weithredu oni bai bod yr awdurdod cymwys, yn unol â Rheoliad 854/2004- (a) wedi rhoi cymeradwyaeth i'r sefydliad weithredu yn dilyn ymweliad ar y safle; neu (b) wedi rhoi cymeradwyaeth amodol i'r sefydliad.	Article 4(3) of Regulation 853/2004	Requirement that establishments subject to approval in accordance with Article 4(2) do not operate unless the competent authority has, in accordance the Regulation 854/2004- (a) granted the establishment approval to operate following an on-site visit; or (b) provided the establishment with conditional approval.
Erthygl 4(4) o Reoliad 853/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn cydweithredu â'r awdurdodau cymwys yn unol â Rheoliad 854/2004 gan gynnwys sicrhau bod sefydliad yn peidio â gweithredu os nad yw'n sefydliad cymeradwy mwyach.	Article 4(4) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators co-operate with the competent authorities in accordance with Regulation 854/2004 including ensuring that an establishment ceases to operate if it is no longer approved.
Erthygl 5(1) o Reoliad 853/2004	Gofyniad nad yw gweithredwyr busnes bwyd yn rhoi ar y farchnad gynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid ac sydd wedi'i drafod mewn sefydliad sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth yn unol ag Erthygl 4(2) oni bai- (a) bod marc iechyd wedi'i ddodi arno yn unol â Rheoliad 854/2004; neu	Article 5(1) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators do not place on the market a product of animal origin handled in an establishment subject to approval in accordance with Article 4(2) unless it has- (a) a health mark applied in accordance with Regulation 854/2004; or

1. Y Ddarpariaeth yn Rheoliadau'r Gymuned	*2. Y Pwnc*
	(b) pan nad yw Rheoliad 854/2004 yn darparu ar gyfer dodi marc iechyd, bod marc adnabod yn cael ei ddodi yn unol ag Adran 1 o Atodiad II Reoliad 853/2004.
Erthygl 5(2) o Reoliad 853/2004	Gofyniad mai dim ond os yw'r cynnyrch wedi'i weithgynhyrchu yn unol â Rheoliad 853/2004 mewn sefydliadau sy'n bodloni gofynion Erthygl 4 y dylai gweithredwyr busnes bwyd ddodi marc adnabod ar gynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid.
Erthygl 5(3) o Reoliad 853/2004	Gofyniad nad yw gweithredwyr busnes bwyd yn dileu marc iechyd a ddodwyd yn unol â Rheoliad 854/2004 oddi ar gig oni bai eu bod yn ei dorri neu'n ei brosesu neu'n gweithio arno mewn modd arall.
Erthygl 6(1) a (2) o Reoliad 853/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn sicrhau mai dim ond pan fydd amodau penodol wedi'u bodloni y dylai mewnforio cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ddigwydd.
Erthygl 6(3) o Reoliad 853/2004	Gofyniad bod rhaid i weithredwyr busnes bwyd sy'n mewnforio cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid sicrhau- (a) bod cynhyrchion yn cael eu rhoi ar gael i'w rheoli wrth iddynt gael eu mewnforio yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC(**1**); (b) bod y mewnforio yn cydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/99/EC(**2**); ac

(**1**) OJ Rhif L24, 30.1.1998, t.9.

(**2**) OJ Rhif L18, 23.1.2003, t.11.

1. Provision of Community Regulations	*2. Subject Matter*
	(b) when Regulation 854/2004 does not provide for the application of a health mark, an identification mark applied in accordance with Section 1 of Annex II to Regulation 853/2004.
Article 5(2) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators apply an identification mark to a product of animal origin only if the product has been manufactured in accordance with Regulation 853/2004 in establishments meeting the requirements of Article 4.
Article 5(3) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators do not remove a health mark applied in accordance with Regulation 854/2004 from meat unless they cut or process it or work upon it in another manner.
Article 6(1) and (2) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators ensure that importation of products of animal origin only takes place where certain conditions are met.
Article 6(3) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators importing products of animal origin shall ensure that- (a) products are made available for control upon importation in accordance with Council Directive 97/78/EC(**1**); (b) importation complies with the requirements of Council Directive 2002/99/EC(**2**); and

(**1**) OJ No. L24, 30.1.1998, p.9.

(**2**) OJ No. L18, 23.1.2003, p.11.

1. Y Ddarpariaeth yn Rheoliadau'r Gymuned	*2. Y Pwnc*	*1. Provision of Community Regulations*	*2. Subject Matter*
	(c) bod gweithrediadau o dan eu rheolaeth sy'n digwydd ar ôl y mewnforio yn cael eu cyflawni yn unol â gofynion Atodiad III i Reoliad 853/2004.		(c) operations under their control that take place after importation are carried out in accordance with the requirements of Annex III to Regulation 853/2004.
Erthygl 6(4) o Reoliad 853/2004	Gofynion bod gweithredwyr busnes bwyd sy'n mewnforio bwyd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n tarddu o blanhigion a chynhyrchion proses sy'n tarddu o anifeiliaid yn sicrhau bod y cynhyrchion proses sy'n tarddu o anifeiliaid yn bodloni gofynion paragraffau (1) i (3) o Erthygl 6.	Article 6(4) of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators importing food containing both products of plant origin and processed products of animal origin ensure that the processed products of animal origin satisfy the requirements of paragraphs (1) to (3) of Article 6.
Erthygl 7 o Reoliad 853/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn sicrhau bod tystysgrifau neu ddogfennau eraill yn mynd gyda llwythi cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid pan fo'n ofynnol yn unol ag Atodiad II neu III i Reoliad 853/2004.	Article 7 of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators ensure that certificates or other documents accompany consignments of products of animal origin when required in accordance with Annex II or III to Regulation 853/2004.
Erthygl 8 o Reoliad 853/2004	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd sy'n bwriadu rhoi bwydydd penodedig sy'n tarddu o anifeiliaid ar y farchnad yn Sweden neu'r Ffindir yn cydymffurfio â'r rheolau a nodir yn Erthygl 8(2).	Article 8 of Regulation 853/2004	Requirement that food business operators intending to place specified foods of animal origin on the market in Sweden or Finland comply with the rules set out in Article 8(2).
Erthygl 7(1) o Reoliad 2073/2005	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd yn cymryd y mesurau a bennir ym mharagraffau (2) i (4) o Erthygl 7 pan fydd y canlyniadau ar ôl profi yn erbyn y meni prawf a osodir yn Atodiad I i Reoliad 2073/2005 (meini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd) yn anfoddhaol	Article 7(1) of Regulation 2073/2005	Requirement that food business operators take the measures laid down in paragraphs (2) to (4) of Article 7 when the results of testing against the criteria set out in Annex I to Regulation 2073/2005 (microbiological criteria for foodstuffs) are unsatisfactory.

1. Y Ddarpariaeth yn Rheoliadau'r Gymuned	*2. Y Pwnc*
Erthygl 9 o Reoliad 2073/2005	Gofyniad bod gweithredwyr busnes bwyd daliadau y cydnabyddir eu bod yn rhydd o *Trichinella* yn hysbysu'r awdurdod cymwys o unrhyw ofyniad a bennir ym Mhennod I a II(B) o Atodiad IV i Reoliad 2075/2005 (amodau manwl ar gyfer daliadau sy'n rhydd o *Trichinella* ac ardaloedd lle mae'r risg o *Trichinella* yn eithriadol o fach) nad yw bellach yn cael ei gyflawni neu unrhyw newid arall a allai effeithio ar statws daliadau sy'n rhydd o *Trichinella*.

1. Provision of Community Regulations	*2. Subject Matter*
Article 9 of Regulation 2075/2005	Requirement that food business operators of holdings recognised as free from *Trichinella* inform the competent authority of any requirement as laid down in Chapter I and II(B) of Annex IV to Regulation 2075/2005 (detailed conditions for *Trichinella*-free holdings and regions with a negligible *Trichinella* risk) that is no longer fulfilled or of any other change that might affect holdings' *Trichinella*-free status.

ATODLEN 3

Rheoliad 29

SWMPGLUDO OLEWAU HYLIFOL NEU FRASTERAU HYLIFOL AR LONGAU MORDWYOL A SWMPGLUDO SIWGR CRAI DROS Y MÔR

Tramgwydd

1. Bydd person sy'n mynd yn groes i unrhyw un o ofynion yr Atodlen hon neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un ohonynt yn euog o dramgwydd.

Olewau hylifol neu frasterau hylifol

2.-(1) Caniateir i olewau hylifol neu frasterau hylifol sydd i'w prosesu, ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl neu sy'n debygol o gael eu defnyddio ar gyfer eu bwyta gan bobl, gael eu swmpgludo ar longau mordwyol mewn tanciau nas cedwir at gludo deunyddiau bwyd yn unig, a chaniateir hynny yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol-

(a) pan fo'r olew neu'r braster yn cael ei gludo mewn tanc dur gwrthstaen, neu danc sydd wedi'i leinio â resin epocsi neu ddeunydd sy'n dechnegol gyfatebol iddo, rhaid i'r cargo uniongyrchol flaenorol a gludwyd yn y tanc fod wedi bod yn ddeunydd bwyd neu'n gargo o'r rhestr o gargoau blaenorol derbyniol ar gyfer olewau hylifol neu frasterau hylifol; a

(b) pan fo'r olew neu'r braster yn cael ei gludo mewn tanc o ddeunyddiau heblaw'r rhai a bennir yn is-baragraff (a), rhaid i'r tri chargo blaenorol a gludwyd yn y tanciau fod wedi bod yn ddeunyddiau bwyd neu'n gargoau o'r rhestr o gargoau blaenorol derbyniol ar gyfer olewau hylifol neu frasterau hylifol.

(2) At ddibenion y paragraff hwn, ystyr "rhestr o gargoau blaenorol derbyniol ar gyfer olewau hylifol neu frasterau hylifol" yw'r rhestr a nodir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 96/3/EC.

3. Caniateir i olewau hylifol neu frasterau hylifol nad ydynt i'w prosesu ymhellach, ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl neu sy'n debygol o gael eu defnyddio ar gyfer eu bwyta gan bobl, gael eu swmpgludo mewn tanciau nas cedwir at gludo deunyddiau bwyd yn unig, a chaniateir hynny yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol-

(a) rhaid i'r tanc fod yn danc dur gwrthstaen neu fod wedi'i leinio â resin epocsi neu ddeunydd sy'n dechnegol gyfatebol iddo; a

(b) rhaid i'r tri chargo blaenorol a gludwyd yn y tanc fod wedi bod yn ddeunyddiau bwyd.

SCHEDULE 3

Regulation 29

BULK TRANSPORT IN SEA-GOING VESSELS OF LIQUID OILS OR FATS AND THE BULK TRANSPORT BY SEA OF RAW SUGAR

Offence

1. A person who contravenes or fails to comply with any of the requirements of this Schedule will be guilty of an offence.

Liquid oils or fats

2.-(1) The bulk transport in sea-going vessels of liquid oils or fats which are to be processed, and which are intended for or likely to be used for human consumption, is permitted in tanks that are not exclusively reserved for the transport of foodstuffs, subject to the following conditions-

(a) where the oil or fat is transported in a stainless steel tank, or tank lined with epoxy resin or technical equivalent, the immediately previous cargo transported in the tank must have been a foodstuff or a cargo from the list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats; and

(b) where the oil or fat is transported in a tank of materials other than those specified in sub-paragraph (a), the three previous cargoes transported in the tanks must have been foodstuffs or from the list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats.

(2) For the purposes of this paragraph, "list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" means the list set out in the Annex to Commission Directive 96/3/EC.

3. The bulk transport in sea-going vessels of liquid oils or fats which are not to be further processed, and which are intended for or are likely to be used for human consumption, is permitted in tanks that are not exclusively reserved for the transport of foodstuffs, subject to the following conditions-

(a) the tank must be of stainless steel or lined with epoxy resin or technical equivalent; and

(b) the three previous cargoes transported in the tank must have been foodstuffs.

4. Rhaid i gapten llong fordwyol sy'n cludo mewn tanciau swmp o olewau hylifol neu frasterau hylifol a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl neu sy'n debygol o gael eu defnyddio ar gyfer eu bwyta gan bobl, gadw tystiolaeth ddogfennol gywir ynglŷn â'r tri chargo blaenorol a gludwyd yn y tanciau o dan sylw, ac am effeithiolrwydd y broses lanhau a ddefnyddiwyd rhwng y cargoau hynny.

5. Pan fo'r cargo wedi'u drawslwytho, yn ychwanegol at y dystiolaeth ddogfennol sy'n ofynnol yn rhinwedd paragraff 4, rhaid i gapten y llong sy'n ei dderbyn gadw tystiolaeth ddogfennol gywir bod cludo'r swmp o olew hylifol neu fraster hylifol wedi cydymffurfio â darpariaethau paragraff 2 neu 3 yn ystod y llwyth llong blaenorol ac am effeithiolrwydd y broses lanhau a ddefnyddiwyd rhwng y cargoau hynny ar y llong y cawsant eu trawslwytho ohoni.

6. Os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid i gapten y llong roi i'r awdurdod gorfodi y dystiolaeth ddogfennol a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 4 a 5.

Siwgr crai

7. Caniateir i siwgr crai na fwriedir ei ddefnyddio fel bwyd neu gynhwysyn bwyd heb broses buro lawn ac effeithiol gael ei swmpgludo dros y môr mewn daliedyddion, cynwysyddion neu danceri nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer cludo deunyddiau bwyd yn unig.

8. Bydd y daliedyddion, y cynwysyddion neu'r tanceri y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 7 yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol-

(a) cyn llwytho'r siwgr crai, rhaid i'r daliedydd, y cynhwysydd neu'r tancer gael ei lanhau'n effeithiol i waredu gweddillion y cargo blaenorol ac unrhyw faeddu arall a'i arolygu i gadarnhau bod y gweddillion hynny wedi'u gwaredu'n effeithiol; a

(b) rhaid i'r cargo uniongyrchol flaenorol a gludwyd cyn y siwgr crai beidio â bod wedi bod yn swmp-hylif.

9. Rhaid i weithredydd busnes bwyd sy'n gyfrifol am gludo siwgr crai dros y môr o dan baragraff 7 gadw tystiolaeth ddogfennol, gan ddisgrifio'n gywir ac yn fanwl y cargo uniongyrchol flaenorol a gludwyd yn y daliedydd, y cynhwysydd neu'r tancer o dan sylw, a math ac effeithiolrwydd y broses lanhau a ddefnyddiwyd cyn cludo'r siwgr crai.

10. Rhaid i'r dystiolaeth ddogfennol fynd gyda llwyth siwgr crai yn ystod pob cam yn y broses o'i gludo i'r burfa a rhaid i'r burfa gadw copi o'r dystiolaeth honno. Rhaid i'r dystiolaeth ddogfennol gael ei marcio fel a ganlyn mewn modd sy'n hollol weladwy ac annileadwy mewn un neu ragor o ieithoedd y Gymuned: "This product must be refined before being used for human consumption".

4. The captain of a sea-going vessel transporting, in tanks, bulk liquid oils or fats intended for or likely to be used for human consumption must keep accurate documentary evidence relating to the three previous cargoes carried in the tanks concerned, and the effectiveness of the cleaning process applied between those cargoes.

5. Where the cargo has been trans-shipped, in addition to the documentary evidence required by virtue of paragraph 4, the captain of the receiving vessel must keep accurate documentary evidence that the transport of the bulk liquid oil or fat complied with the provisions of paragraph 2 or 3 during previous shipment and of the effectiveness of the cleaning process used between those cargoes on the vessel from which they were trans-shipped.

6. Upon request, the captain of the vessel must provide the enforcement authority with the documentary evidence described in paragraphs 4 and 5.

Raw sugar

7. The bulk transport by sea of raw sugar which is not intended for use as food or as a food ingredient without a full and effective refining process is permitted in receptacles, containers or tankers that are not exclusively used for the transport of foodstuffs.

8. The receptacles, containers or tankers referred to in paragraph 7 will be subject to the following conditions-

(a) prior to loading the raw sugar, the receptacle, container or tanker must be effectively cleaned to remove residues of the previous cargo and other soiling and inspected to establish that such residues have been removed effectively; and

(b) the immediate previous cargo prior to the raw sugar must not have been a bulk liquid.

9. A food business operator who is responsible for the transport of raw sugar by sea under paragraph 7 must keep documentary evidence, accurately describing in detail the immediate previous cargo carried in the receptacle, container or tanker concerned, and the type and effectiveness of the cleaning process applied prior to the transport of the raw sugar.

10. The documentary evidence must accompany the consignment of raw sugar during all stages of transport to the refinery and a copy must be retained by the refinery. The documentary evidence must be marked as follows in a clearly visible and indelible fashion, in one or more Community languages: "This product must be refined before being used for human consumption".

11. Os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid i weithredydd busnes bwyd sy'n gyfrifol am gludo'r siwgr crai neu'r broses buro ddarparu i'r awdurdod gorfodi y dystiolaeth ddogfennol y cyfeiriwyd ati ym mharagraffau 9 a 10.

12. Gwneir i siwgr crai sydd wedi'i gludo dros y môr mewn daliedyddion, cynwysyddion neu danceri nas cedwir at gludo deunyddiau bwyd yn unig, fynd drwy broses buro lawn ac effeithiol cyn iddo gael ei ystyried yn addas i'w ddefnyddio fel bwyd neu fel cynhwysyn bwyd.

13. Wrth gyflawni'r rhwymedigaethau o dan Erthygl 5(1) o Reoliad 852/2004 (dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol) o ran swmpgludo siwgr crai dros y môr o dan baragraff 7, rhaid i weithredydd busnes bwyd sy'n gyfrifol am gludo neu buro siwgr crai-

(a) ystyried y broses lanhau yr ymgymerwyd, hi cyn llwytho'r siwgr i'w gludo dros y môr yn bwynt rheoli critigol yn y modd y cyfeirir at "critical control point" yn Erthygl 5(2)(b) o Reoliad 852/2004; a

(b) cymryd i ystyriaeth natur y cargo blaenorol sydd wedi'i gludo mewn unrhyw ddaliedydd, cynhwysydd neu dancer sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cludo'r siwgr.

Dehongli

14.-(1) At ddibenion yr Atodlen hon mae unrhyw eiriau neu ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodlen hon ac unrhyw eiriau neu ymadroddion Saesneg cyfatebol a ddefnyddir yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 96/3/EC neu Gyfarwyddeb y Comisiwn 98/28/EC yn caniatáu rhan-ddirymiad o ddarpariaethau penodol Cyfarwyddeb 93/43/EEC ar hylendid deunyddiau bwyd o ran cludo swmpiau o siwgr crai dros y môr(**1**) yn dwyn yr un ystyr ag ystyr y geiriau neu'r ymadroddion Saesneg cyfatebol hynny yn eu tro yn y Cyfarwyddebau hynny.

(2) Yn yr Atodlen hon, ystyr "Cyfarwyddeb y Comisiwn 96/3/EC" yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 96/3/EC sy'n caniatáu rhan-ddirymiad o ddarpariaethau penodol Cyfarwyddeb y Cyngor 93/43/EEC ar hylendid deunyddiau bwyd o ran cludo swmpiau o olewau hylifol a brasterau hylifol dros y môr(**2**), fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/4/EC yn diwygio Cyfarwyddeb 96/3/EC yn caniatáu rhan-ddirymiad o ddarpariaethau Cyfarwyddeb y Cyngor 93/43/EEC ar hylendid deunyddiau bwyd o ran cludo swmpiau o olewau hylifol a brasterau hylifol dros y môr(**3**).

11. On request, a food business operator responsible for the transport of the raw sugar or the refining process must provide the enforcement authority with the documentary evidence referred to in paragraphs 9 and 10.

12. Raw sugar which has been transported by sea in receptacles, containers or tankers which are not exclusively reserved for the transport of foodstuffs will be subjected to a full and effective refining process before being considered suitable for use as food or as a food ingredient.

13. In fulfilling the obligations under Article 5(**1**) of Regulation 852/2004 (hazard analysis and critical control points) in relation to the bulk transport of raw sugar by sea under paragraph 7, a food business operator who is responsible for the transport or refining of raw sugar must-

(a) consider the cleaning process undertaken prior to the loading of the sugar for transport by sea to be a critical control point as referred to in Article 5(2)(b) of Regulation 852/2004; and

(b) take into account the nature of the previous cargo which has been transported in any receptacle, container or tanker used for the transport of the sugar.

Interpretation

14.-(1) For the purposes of this Schedule any words or expressions used both in this Schedule and in Commission Directive 96/3/EC or Commission Directive 98/28/EC granting a derogation from certain provisions of Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs as regards the transport by sea of bulk raw sugar(**1**) will bear the same meanings as they respectively have in those Directives.

(2) In this Schedule, "Commission Directive 96/3/EC" means Commission Directive 96/3/EC granting a derogation from certain provisions of Council Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs as regards the transport of bulk liquid oils and fats by sea(**2**) as amended by Commission Directive 2004/4/EC amending Directive 96/3/EC granting a derogation from certain provisions of Council Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs as regards the transport of bulk liquid oils and fats by sea(**3**).

(**1**) OJ Rhif L140, 12.5.98, t.10.

(**2**) OJ Rhif L21, 27.1.96, t.42.

(**3**) OJ Rhif L15, 22.1.2004, t.25.

(**1**) OJ No. L140, 12.5.98, p.10.

(**2**) OJ No. L21, 27.1.96, p.42.

(**3**) OJ No. L15, 22.1.2004, p.25.

ATODLEN 4

Rheoliad 30

GOFYNION RHEOLI TYMHEREDD

Cwmpas

1. Nid yw'r Atodlen hon yn gymwys o ran-

(a) unrhyw weithrediad busnes bwyd y mae Rheoliad 853/2004 yn gymwys iddo; nac

(b) unrhyw weithrediad busnes bwyd sy'n cael ei gyflawni ar long neu awyren.

Gofynion cadw'n oer

2.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) a pharagraff 3, bydd unrhyw berson sy'n cadw unrhyw fwyd-

(a) sy'n debygol o gynnal twf micro-organeddau pathogenig neu helpu tocsinau i ffurfio; a

(b) y mae unrhyw weithrediad masnachol yn cael ei gyflawni mewn perthynas ag ef,

ar neu mewn mangre bwyd ar dymheredd uwchlaw 8°C yn euog o dramgwydd.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fwyd sy'n cael ei gludo, fel rhan o drafodiad archeb drwy'r post, i'r defnyddiwr olaf.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 3, ni chaiff neb gyflenwi drwy archeb drwy'r post unrhyw fwyd sydd-

(a) yn debygol o gynnal twf micro-organeddau pathogenig neu helpu tocsinau i ffurfio; a

(b) wrthi'n cael ei gludo neu sydd wedi'i gludo drwy'r post neu drwy gyfrwng cludwr preifat neu gyffredin i'r defnyddiwr olaf,

ar dymheredd sydd wedi arwain neu sy'n debygol o arwain at risg i iechyd.

Esemptiadau cyffredinol rhag y gofynion cadw'n oer

3. Nid yw is-baragraffau (1) a (3) o baragraff 2 yn gymwys o ran-

(a) bwyd-

(i) sydd wedi'i goginio neu wedi'i aildwymo,

(ii) sydd i'w arlwyo neu sy'n cael ei arddangos i'w werthu, a

(iii) y mae angen ei gadw ar dymheredd o 63ºC neu uwchlaw hynny er mwyn rheoli twf micro-organeddau pathogenig neu atal tocsinau rhag ffurfio;

SCHEDULE 4

Regulation 30

TEMPERATURE CONTROL REQUIREMENTS

Scope

1. This Schedule does not apply in relation to-

(a) any food business operation to which Regulation 853/2004 applies; or

(b) any food business operation carried out on a ship or aircraft.

Chill holding requirements

2.-(1) Subject to sub-paragraph (2) and paragraph 3, any person who keeps any food-

(a) which is likely to support the growth of pathogenic micro-organisms or the formation of toxins; and

(b) with respect to which any commercial operation is being carried out,

at or in food premises at a temperature above 8°C will be guilty of an offence.

(2) Sub-paragraph (1) will not apply in relation to any food which, as part of a mail order transaction, is being conveyed to the final consumer.

(3) Subject to paragraph 3, no person may supply by mail order any food which-

(a) is likely to support the growth of pathogenic micro-organisms or the formation of toxins; and

(b) is being or has been conveyed by post or by a private or common carrier to the final consumer,

at a temperature which has given rise to or is likely to give rise to a risk to health.

General exemptions from the chill holding requirements

3. Sub-paragraphs (1) and (3) of paragraph 2 does not apply in relation to-

(a) food which-

(i) has been cooked or reheated,

(ii) is for service or on display for sale, and

(iii) needs to be kept at or above 63°C in order to control the growth of pathogenic micro-organisms or the formation of toxins;

(b) bwyd y caniateir ei gadw, am weddill ei oes silff ar dymereddau amgylchynol heb unrhyw risg i iechyd;

(c) bwyd y gwneir neu y gwnaed iddo fynd drwy broses megis dadhydradu neu ganio a fwriedir i atal twf micro-organeddau pathogenig ar dymereddau amgylchynol, ond nid-

(i) pan fo'r bwyd, ar ôl neu yn rhinwedd y broses honno, wedi'i gynnwys mewn cynhwysydd aerglos, a

(ii) pan fo'r cynhwysydd hwnnw wedi'i agor;

(ch) bwyd y mae'n rhaid ei aeddfedu ar dymereddau amgylchynol, ond nid pan fo'r broses aeddfedu wedi'i chwblhau;

(d) bwyd crai a fwriedir ar gyfer prosesu pellach (gan gynnwys coginio) cyn i bobl ei fwyta, ond dim ond os bydd y prosesu hwnnw, os ymgymerir ag ef yn gywir, yn gwneud y bwyd hwnnw'n ffit ar gyfer ei fwyta gan bobl;

(dd) bwyd y mae Rheoliad y Cyngor 1906/90 yn gymwys iddo; ac

(e) bwyd y mae Rheoliad y Cyngor 1907/90 yn gymwys iddo.

Amrywio'r tymheredd o 8ºC ar i fyny gan weithgynhyrchwyr etc.

4.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, mewn unrhyw achos cyfreithiol am dramgwydd sy'n cynnwys mynd yn groes i is-baragraff (1) o baragraff 2, bydd yn amddiffyniad i'r sawl a gyhuddir brofi-

(a) bod busnes bwyd sy'n gyfrifol am weithgynhyrchu, paratoi neu brosesu'r bwyd, gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, y sawl a gyhuddir, wedi argymell y dylid cadw'r bwyd hwnnw-

(i) ar neu islaw tymheredd penodedig rhwng 8ºC a'r tymereddau amgylchynol, a

(ii) am gyfnod nad yw'n hwy nag oes silff benodedig;

(b) bod yr argymhelliad hwnnw, onid y sawl a gyhuddir yw'r busnes bwyd hwnnw, wedi'i fynegi i'r sawl a gyhuddir naill ai drwy gyfrwng label ar ddeunydd pecynnu'r bwyd neu drwy gyfrwng rhyw ffurf briodol arall ar gyfarwyddyd ysgrifenedig;

(c) nad oedd y bwyd wedi'i gadw gan y sawl a gyhuddir ar dymheredd uwchlaw'r tymheredd penodedig; ac

(ch) nad aethpwyd, adeg cyflawni'r tramgwydd honedig, y tu hwnt i'r oes silff benodedig.

(b) food which, for the duration of its shelf life may be kept at ambient temperatures with no risk to health;

(c) food which is being or has been subjected to a process such as dehydration or canning intended to prevent the growth of pathogenic micro-organisms at ambient temperatures, but not where-

(i) after or by virtue of that process the food was contained in a hermetically sealed container, and

(ii) that container has been opened;

(d) food which must be ripened or matured at ambient temperatures, but not when the process of ripening or maturation is completed;

(e) raw food intended for further processing (including cooking) before human consumption, but only if that processing, if undertaken correctly, will render that food fit for human consumption;

(f) food to which Council Regulation 1906/90 applies; and

(g) food to which Council Regulation 1907/90 applies.

Upward variation of the 8°C temperature by manufacturers etc.

4.-(1) In any proceedings for an offence consisting of a contravention of sub-paragraph (1) of paragraph 2, it will be a defence for the accused to prove that-

(a) a food business responsible for manufacturing, preparing or processing the food, including, where relevant, the accused, has recommended that it is kept-

(i) at or below a specified temperature between 8°C and ambient temperatures, and

(ii) for a period not exceeding a specified shelf life;

(b) that recommendation has, unless the accused is that food business, been communicated to the accused either by means of a label on the packaging of the food or by means of some other appropriate form of written instruction;

(c) the food was not kept by the accused at a temperature above the specified temperature; and

(d) at the time of the commission of the alleged offence, the specified shelf life had not been exceeded.

(2) Rhaid i fusnes bwyd sy'n gyfrifol am weithgynhyrchu, paratoi neu brosesu bwyd beidio ag argymell y dylid cadw unrhyw fwyd-

(a) ar neu islaw tymheredd penodedig rhwng 8°C a'r tymereddau amgylchynol; a

(b) am gyfnod nad yw'n hwy nag oes silff benodedig,

onid yw'r argymhelliad hwnnw wedi'i ategu gan asesiad gwyddonol a sail dda iddo o ddiogelwch y bwyd ar y tymheredd penodedig.

(2) A food business responsible for manufacturing, preparing or processing food must not recommend that any food is kept-

(a) at or below a specified temperature between 8°C and ambient temperatures; and

(b) for a period not exceeding a specified shelf life,

unless that recommendation is supported by a well-founded scientific assessment of the safety of the food at the specified temperature.

Cyfnodau goddef ar gyfer cadw'n oer

5.-(1) Mewn unrhyw achos cyfreithiol am dramgwydd sy'n cynnwys mynd yn groes i is-baragraff (1) o baragraff 2, bydd yn amddiffyniad i'r sawl a gyhuddir brofi-

(a) bod y bwyd ar gyfer ei arlwyo neu'n cael ei arddangos i'w werthu;

(b) nad oedd y bwyd wedi'i gadw o'r blaen ar gyfer ei arlwyo nac yn cael ei arddangos i'w werthu ar dymheredd uwchlaw 8ºC neu, pan fo argymhelliad wedi'i wneud yn unol ag is-baragraff (1) o baragraff 4, y tymheredd a argymhellwyd; ac

(c) wedi'i gadw ar gyfer ei arlwyo neu'n cael ei arddangos i'w werthu am gyfnod o lai na phedair awr.

(2) Mewn unrhyw achos cyfreithiol am dramgwydd sy'n cynnwys mynd yn groes i is-baragraff (1) o baragraff 2, bydd yn amddiffyniad i'r sawl a gyhuddir brofi bod y bwyd-

(a) wrthi'n cael ei drosglwyddo-

(i) o fangre lle'r oedd y bwyd yn mynd i gael ei gadw ar dymheredd o 8ºC neu islaw hynny, neu o dan amgylchiadau priodol y tymheredd a argymhellir, i gerbyd a ddefnyddir at ddibenion busnes bwyd, neu

(ii) i'r fangre honno o'r cerbyd hwnnw; neu

(b) wedi'i gadw ar dymheredd uwchlaw 8ºC neu, o dan amgylchiadau priodol, y tymheredd a argymhellir ar gyfer rheswm anochel, megis-

(i) dygymod â materion ymarferol trafod y bwyd wrth ei brosesu neu ei baratoi ac ar ôl hynny,

(ii) dadrewi'r cyfarpar, neu

(iii) y cyfarpar yn torri i lawr dros dro,

a'i fod wedi'i gadw ar dymheredd uwchlaw 8ºC neu, o dan amgylchiadau arbennig, y tymheredd a argymhellwyd am gyfnod cyfyngedig yn unig a bod y cyfnod hwnnw'n cydweddu â diogelwch bwyd.

Chill holding tolerance periods

5.-(1) In any proceedings for an offence consisting of a contravention of sub-paragraph (1) of paragraph 2, it will be a defence for the accused to prove that the food-

(a) was for service or on display for sale;

(b) had not previously been kept for service or on display for sale at a temperature above 8°C or, where a recommendation has been made pursuant to sub-paragraph (1) of paragraph 4, the recommended temperature; and

(c) had been kept for service or on display for sale for a period of less than four hours.

(2) In any proceedings for an offence consisting of a contravention of sub-paragraph (1) of paragraph 2, it will be a defence for the accused to prove that the food-

(a) was being transferred-

